Canllawiau ar gyfer cwblhau Cynnig Prosiect Cam 1 - cynigion y Gronfa Trawsnewid ac Arloesi o dan £250,000

Mae'r Cynnig Prosiect Cam 1 yn asesiad strategol cychwynnol i'w ystyried gan y Bwrdd Masnacheiddio. Dylai ddarparu trosolwg clir, sy'n seiliedig ar dystiolaeth o'r cynnig, ei addasrwydd strategol, y buddion disgwyliedig, risgiau, costau a gofynion adnoddau.

Cyn dechrau ar y cais, a fyddech cystal â chasglu'r wybodaeth ganlynol.

Gwybodaeth sylfaenol am y prosiect

Bydd angen i chi ddarparu:

- **teitl y prosiect**;
- enw **arweinydd y prosiect**;
- yr **adran neu'r gwasanaeth** perthnasol; a
- disgrifiad byr o **bwrpas y prosiect**.

Yr achos dros newid

Beth ydym yn ceisio ei gyflawni

Esboniwch y broblem neu'r cyfle sydd wedi arwain at y cynnig.

Dylai eich ymateb roi sylw i'r canlynol:

- y sefyllfa bresennol;
- y broblem, y pwysau, yr angen neu'r cyfle sy'n cael sylw;
- pam nad yw'r sefyllfa bresennol bellach yn gynaliadwy neu'n briodol;
- beth all ddigwydd os na chymerir unrhyw gamau;
- y bobl, y cymunedau neu'r gwasanaethau yr effeithir arnynt;
- maint ac arwyddocâd y mater; ac
- y dystiolaeth sy'n cefnogi'r angen am newid.

Gallai tystiolaeth berthnasol gynnwys data gwasanaeth ac ariannol, gwybodaeth am y galw, adborth cwsmeriaid, meincnodi, mesurau perfformiad, gofynion statudol neu ganfyddiadau o adolygiadau blaenorol.

Gwahaniaethu'n glir rhwng tystiolaeth, amcangyfrifon a rhagdybiaethau wedi'u dilysu.

Aliniad ag uchelgeisiau a gwerthoedd y Cyngor

Esboniwch sut mae'r prosiect yn cefnogi uchelgeisiau a gwerthoedd y Cyngor.

Dylai ymgeiswyr nodi sut mae'r cynnig yn cyfrannu at:

- gweledigaeth y Cyngor ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol;
- gwerthoedd perthnasol y Cyngor;
- yr uchelgais i ddod yn sefydliad mwy masnachol;
- y Strategaeth Gorfforaethol a'r amcanion llesiant perthnasol;
- y Model Gweithredu Targed a'r Strategaeth Drawsnewid;
- cynaliadwyedd ariannol; a'r
- Strategaeth Fasnacheiddio.

Esboniwch y cyfraniad penodol y bydd y prosiect yn ei wneud i bob blaenoriaeth berthnasol.

Aliniad ag Amcanion Strategol y Cyngor

Esboniwch sut mae'r prosiect yn cyd-fynd â Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor ac amcanion llesiant allweddol.

Dylai eich ymateb gynnwys:

- sut mae'r prosiect yn cyd-fynd â Model Gweithredu Targed ac agenda trawsnewid y Cyngor
- sut mae'r cynnig yn cefnogi cynaliadwyedd ariannol a/neu yn cefnogi'r Strategaeth Fasnacheiddio neu'n helpu i liniaru risg gorfforaethol allweddol.

Amcanion y Prosiect

Nodwch amcanion allweddol y cynnig. Gall y rhain fod yn ymwneud â:

- moderneiddio prosesau a systemau;
- gwella canlyniadau i gwsmeriaid a defnyddwyr gwasanaeth;
- cynyddu incwm;
- lleihau costau;
- cynhyrchu arbedion effeithlonrwydd;
- gwella ansawdd, cyflymder neu effeithlonrwydd gwasanaeth; neu
- lliniaru risg gorfforaethol sylweddol.

Dylai amcanion fod yn benodol ac yn fesuradwy. Lle bo'n bosibl, dylech nodi:

- y canlyniad a fwriedir;
- y llinell sylfaen neu'r sefyllfa bresennol;
- y targed i'w gyflawni;
- sut y bydd cyflawniad yn cael ei fesur; ac
- y pwynt cyflawni disgwyliedig.

Buddion a Chanlyniadau

Buddion ariannol

Rhowch amcangyfrifon lefel uchel o'r buddion ariannol a ddisgwylir o'r prosiect.

Gall hyn gynnwys:

- incwm ychwanegol o ffynonellau fel hysbysebu, nawdd neu ffioedd gwasanaeth;
-
- effeithlonrwydd neu ostyngiadau yn y galw; ac
- amcangyfrif cychwynnol o enillion ar fuddsoddiad, lle gellir cyfrifo hyn.

Nodwch yn glir unrhyw ragdybiaethau a ddefnyddiwyd i gynhyrchu'r amcangyfrifon. Os nad yw'r union ffigurau ar gael eto, rhowch yr amcangyfrif cyfredol gorau ac esboniwch pa waith pellach fydd ei angen i'w gadarnhau.

Buddion ehangach

Nodwch fuddion nad ydynt efallai yn uniongyrchol ariannol, gan gynnwys:

- gwerth cymdeithasol a chyflogaeth leol;
- cyfranogiad cymunedol neu ganlyniadau cymunedol gwell;
- manteision amgylcheddol, gan gynnwys lleihau carbon;
- gwell gwasanaethau neu brofiad cwsmeriaid;
- gwydnwch gwell;
- cyfleoedd i gydweithio; ac
- arloesi neu ddysgu y allai fod yn berthnasol mewn meysydd eraill.

Esboniwch pwy fydd yn elwa ac, lle bo'n bosibl, sut y gellid dangos neu fesur y buddion.

Asesiad Gwireddu Buddion

Os ydych wedi cynnal Asesiad Gwireddu Buddion ac wedi cwblhau'r templed asesu, gallwch lanlwytho copi i gefnogi eich cais.

Efallai y bydd angen i chi siarad â'r Tîm Trawsnewid i fesur a fyddai'n fuddiol cwblhau Asesiad Gwireddu Buddion.

Risgiau a Mesurau Lliniaru

Risgiau Posibl

Beth yw'r risgiau posibl sy'n gysylltiedig â gweithredu'r prosiect.

Dylech gynnwys, lle bo'n berthnasol:

- risgiau mewnol fel cyfyngiadau adnoddau, gwrthwynebiad staff

- effaith oedi wrth gyflawni'r prosiect
- effaith diffyg pryniant neu fewnbwn gan wasanaethau eraill
- risg posibl o gynyddu costau
- effaith bosibl risgiau allanol fel newidiadau cyfreithiol neu reoleiddiol a risg o ran enw da.

Mesurau Lliniaru a Rheoli

Disgrifiwch strwythurau llywodraethu, trefniadau bwrdd prosiect, cynllunio wrth gefn, ymgysylltu â rhanddeiliaid, a monitro ac adrodd rheolaidd.

Costau a Chyllid

Costau

Darparu amcangyfrifon lefel uchel ar gyfer costau cyfalaf, costau refeniw, costau gweithredol parhaus, ffynonellau cyllido, ac unrhyw oblygiadau refeniw parhaus.

Cyllid neu Fuddsoddiad Ychwanegol

Nodwch a oes angen cyllid neu fuddsoddiad ychwanegol i gyflawni'r prosiect. Os oes angen cyllid ychwanegol:

- rhowch amcangyfrif lefel uchel o gyfanswm y cyllid sydd ei angen.
- nodwch a oes angen cyllid am flwyddyn neu sawl blwyddyn
- nodwch ffynonellau cyllid allanol neu ddyraniadau cyllidebol mewnol
- esboniwch a fydd yn cael ei ddefnyddio fel arian cyfatebol,
- cadarnhewch a ellid cyflawni rhai elfennau heb fuddsoddiad ychwanegol.

Y Math o Gyllid

Yn yr adran hon, nodwch a ydych yn gwneud cais am:

- Benthyciad Trawsnewid y mae angen ei ad-dalu
- Grant Buddsoddi Trawsnewid

Os ydych yn gwneud cais am Fenthyciad Trawsnewid, mae angen i chi gadarnhau y gallwch ad-dalu'r swm o fewn cyfnod o bedair blynedd. Bydd angen i chi hefyd amlinellu'r cynllun ad-dalu, gan gynnwys incwm neu arbedion disgwyliedig, amserlenni, rhagdybiaethau, ac unrhyw risgiau neu ddibyniaeth a allai effeithio ar ad-daliad.

Ystyriaethau Cyflawni

Capasiti a Gallu

Ystyriwch a yw'r bobl, y sgiliau a'r gallu angenrheidiol ar gael i gyflawni'r prosiect.

Dylech nodi:

- pa dimau mewnol fyddai'n cymryd rhan;
- a oes gan y timau hynny ddigon o gapasiti;
- y sgiliau neu'r arbenigedd sydd eu hangen;
- unrhyw anghenion hyfforddi neu ddatblygu; a
- sut y byddant yn mynd i'r afael â nhw, er enghraifft drwy hyfforddiant, recriwtio neu gymorth allanol.

Goblygiadau i wasanaethau eraill

Disgrifiwch unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol disgwyliedig ar wasanaethau eraill y Cyngor.

Goblygiadau caffael

Nodwch a yw cyflawni'r prosiect yn debygol o fod angen caffael nwyddau, gwasanaethau neu waith.

Dylid ystyried:

- beth allai fod angen ei brynu;
- a yw contract neu fframwaith presennol ar gael;
- yr amserlen gaffael debygol; ac
- a allai gofynion caffael effeithio ar gostau'r prosiect neu ddyddiadau cyflawni.

Efallai na fydd trefniadau caffael manwl ar gael yn ystod Cam 1, ond dylid nodi unrhyw ofynion hysbys neu debygol.

Gwybodaeth berthnasol arall

Dylech gynnwys unrhyw beth arall y dylai'r Bwrdd Masnacheiddio ei wybod wrth ystyried y cynnig.

Gallai hyn gynnwys:

- dibyniaeth ar brosiectau, penderfyniadau neu gyllid eraill;
- sensitifrwydd gwleidyddol neu gymunedol;
- cyfleoedd ar gyfer arloesi;
- a ellid profi'r cynnig i ddechrau trwy beilot;
- rhagdybiaethau neu ansicrwydd allweddol;
- ystyriaethau cyfreithiol neu amseru strategol

Gwiriadau terfynol cyn cyflwyno

Cyn cyflwyno'r cais, dylech sicrhau'r canlynol:

- mae'r cynnig a'r achos dros newid wedi'u hesbonio'n glir;
- mae datganiadau yn cael eu hategu gan dystiolaeth lle bo hynny ar gael;
- mae amcanion yn benodol ac yn fesuradwy;
- mae buddion ariannol ar wahân i fuddion ehangach;
- mae costau'n cynnwys gweithredu a goblygiadau parhaus;
- mae risgiau sylweddol a rheolaethau arfaethedig wedi'u nodi;
- ymgynghorwyd â gwasanaethau'r Cyngor yr effeithir arnynt lle bo hynny'n briodol;
- mae rhagdybiaethau ac ansicrwydd wedi'u nodi'n glir; a
- gallai cydweithiwr nad yw'n gyfarwydd â'r cynnig ddeall beth sy'n cael ei gynnig a pham.